

## Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd (PLG)

### COFNODION

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Iau 15 Tachwedd 2012 am 5:00pm yng Nghlwb Chwaraeon a Chymdeithasol Gorsaf Pŵer Niwclear Wylfa

**Yn bresennol (yn ôl eu sefydliad):**

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Cymdeithas Amaethyddol Môn	John	Chamberlain
Prifysgol Bangor	Kimberley	Jones
Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)	Gwynne	Morris-Jones
Clough & Co	Gwilym	Williams
Coleg Menai	Wyn	Thomas
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	Richard	Humphreys
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Damian	Hamilton
Dŵr Cymru / Welsh Water	Angela	Meadows
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
Cyngor Sir Ynys Môn	Cyng Bob	Parry
Cyngor Sir Ynys Môn Cynghorydd dros Lanbadrig	Cyng Williams	Thomas-Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Jones
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Helen	Woodcock
Cyngor Cymuned Llannerch y Medd	John	Jukes
Menter Mechell	Jac	Jones
Morgan Evans	Ann	Jones
Morgan Evans	Simon	Jones
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	Will	Edwards
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	Richard	Williams
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sue	Andrews
Anabledd Taran	Aled	Roberts
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Anna	M Jones
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Trevor	Jones
Llywodraeth Cymru	Gareth	Hall
Ysgol Syr Thomas Jones	Callum	Gaskell
Ysgol Syr Thomas Jones	Jean	Jones

Ysgol Syr Thomas Jones	Gemma	Roebuck
<b>Aelodau o'r Cyhoedd / Magnox</b>		
	Hayden	Davies
	Derek	Gadsdon
	Iorwerth	Gray-Parry
	John	Jones
	Steve	Roberts
	Alwyn	Pritchard
	Gwilym	Jones
	Mark	Thornton
Magnox	Richard	Cowell
Magnox	Paul	Dundee
Magnox	Tracy	Gaskell
Magnox	Lisa	Morgan
Magnox	John	Rowlands
Magnox	Lowri	Jones
Magnox	Judy	Turner
Magnox	Martin	Turner
Magnox	Stuart	Law
Magnox	Fred	Brooks
Magnox	Andrew	McAteer
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Heneiddio'n Dda Amlwch	Delyth	Jones
Cyngor Sir Ynys Môn Cynghorydd dros Parc a'r Mynydd	J V	Owen
Rhaglen Ynys Ynni	John Idris	Jones
Syrfëwr Siartredig	Elfed	Williams
Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn	Richard Parry	Jones

Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Cyngor Sir Ynys Môn – Pennaeth Adnoddau Dynol	Carys	Edwards
Llaneilian (a Chadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa)	Aled Morris	Jones
Aelod Cynulliad Ynys Môn	Ieuan Wyn	Jones
Aelod Seneddol Ynys Môn	Albert	Owen
Aelod o'r Cyhoedd	Mel	O'Hara
Menter Môn	Gerallt	Jones
AS Conwy	Guto	Bebb
AS Dwyfor Meirionnydd	Elfyn	Llwyd
Academi Sgiliau Genedlaethol – Niwclear	Alli	Hunt
Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn	Dylan	Williams
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Andrew	Forfar
Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Jackie	Blackwell
Ysgol Uwchradd Bodedern	Irfon	Morris

Os nad yw'ch enw ar y rhestr oherwydd camgymeriad neu os yw wedi ei nodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu e-bostiwch [wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com).

### **1 Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), bawb i'r cyfarfod yn y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, drwy ddweud mai dyma 'ddiwedd y dechrau' yn dilyn y newyddion bod Hitachi yn bwriadu prynu Horizon Nuclear Power. Hefyd, croesawodd Charlie Tasker (CT), Cyfarwyddwr Datblygu'r Prosiect, ac Ed Hodge (EH) Datblygwr y Prosiect, yn absenoldeb Alan Smith (AS), Pennaeth Datblygu'r Safle, a oedd â galwadau eraill.

### **2 Ymddiheuriadau a Chofnodion**

Cafwyd ymddiheuriadau a chytunwyd fod cofnodion cyfarfod diwethaf y PLG (27 Medi 2012) yn gofnod cywir o ddigwyddiadau ac fe'u derbyniwyd gan yr aelodau

### **3 Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf**

- Ers cyfarfod y PLG ym mis Medi dywedodd DE fod y Grid Cenedlaethol wedi lansio ei ymgynghoriad i roi sylw i ystyriaethau capasiti a gwella'r rhwydwaith yng Ngogledd Cymru. O ganlyniad, roedd DE wedi gwahodd y Grid Cenedlaethol i fod yn bresennol yn y cyfarfod, a byddai Gareth Williams, Prif Swyddog Prosiect gyda'r Grid Cenedlaethol, ar gael i ateb cwestiynau cyffredinol am y prosiect.
- Yn dilyn pryderon a godwyd yng nghyfarfod Medi'r PLG, tynnodd DE sylw at nodyn yng nghofnodion Medi a oedd yn dweud bod Horizon wedi bod mewn cysylltiad â grŵp o breswylwyr yr A5025 ddwywaith ers mis Mawrth i'w diweddarau am y prosiect ac i gynnig cyfarfodydd un i un os oedd angen.

#### **4 Diweddariad ar fwriad Hitachi i brynu Horizon Nuclear Power - Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu Prosiectau, Horizon Nuclear Power**

- Diolchodd CT i bawb am eu cefnogaeth drwy gydol 2012 ac yn dilyn cyhoeddiad diweddar Hitachi.
- Ers y cyhoeddiad, roedd Horizon a Hitachi yn hapus iawn â'r ymateb yn lleol ac yn genedlaethol. Roedd y Prif Weinidog David Cameron wedi croesawu Hitachi i sector ynni'r DU, ac roedd ffigurau gwleidyddol lleol wedi datgan eu cefnogaeth i'r prosiect.
- Dywedodd CT fod 100 o swyddi wedi eu diogelu o ganlyniad i bryniant Hitachi. Byddai'r holl staff yn cael eu trosglwyddo o'r perchnogion blaenorol i'r perchnogion newydd ar ôl cwblhau'r gwerthu ddiwedd mis Tachwedd.
- Esboniodd CT mai cynnig Hitachi oedd datblygu rhwng 5,200 MW a 7,800 MW o gapasiti cynhyrchu newydd yn Wylfa ac Oldbury. Gan ei bod yn anodd manylu ar yr amserlenni, dywedodd CT y byddai rhagor o wybodaeth ar gael yn gynnar yn 2013.
- Dywedodd CT fod rôl niwclear newydd yn hanfodol o hyd i economi'r DU. Bydd angen 60 GW o gapasiti newydd ar y wlad erbyn 2025 ac roedd yn rhaid i'r atebion fod yn rhai carbon isel ac yn gynaliadwy. Mae Hitachi wedi ymrwymo i hyn ac mae'n gobeithio cynnal hyd at 12,000 o swyddi newydd yn ystod y gwaith adeiladu a miloedd yn rhagor o swyddi crefftus pan fydd y ddwy orsaf pŵer niwclear yn weithredol.
- Eglurodd CT fod Horizon wedi'i ffurfio yn Ionawr 2009 fel menter ar y cyd rhwng E.ON UK a RWE npower, ond gwnaethpwyd cyhoeddiad ganddynt ar 29 Mawrth 2012 am eu bwriad i dynnu'n ôl o raglen niwclear y DU. Rhoddwyd Horizon ar y farchnad ac ar 30 Hydref, yn dilyn proses werthu a gynhaliwyd yn ystod yr haf, cyhoeddodd Hitachi gytundeb i brynu Horizon fel cwmni gweithredol. Eglurodd CT y byddai'r broses o werthu'r cwmni wedi'i chwblhau erbyn diwedd Tachwedd. ***Nodyn yn dilyn y cyfarfod: Cwblhawyd y broses o werthu'r cwmni ar 23 Tachwedd 2012 a cheir rhagor o wybodaeth yn [www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)***

- Dywedodd CT mai Horizon yw'r datblygwr o hyd ar gyfer Wylfa ac Oldbury a bydd hefyd yn gweithredu'r gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Mae Horizon yn gyfrifol am sicrhau trwyddedau ar gyfer y safleoedd ac am gael caniatâd i ddatblygu'r ddau safle. Hitachi fydd y cyfranddaliwr a'r darparwr technoleg, a bydd yn ffurfio tîm cyflenwi ar gyfer y cam adeiladu.
- Eglurodd CT fod Hitachi wedi ymrwmo i fuddsoddi yn y DU ac mae hefyd wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Rolls Royce a Babcock International Group i ddarparu sgiliau a thechnoleg ar gyfer y prosiect.
- Dywedodd CT y bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu â Hitachi i drafod y manylion ar ôl cwblhau'r broses werthu a bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn gynnar yn 2013.

## **5 Newyddion diweddaraf am y prosiect a datblygu'r safle – Ed Hodge yn absenoldeb Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safle, Pŵer Niwclear Horizon**

- Yn absenoldeb AS, cafwyd trosolwg gan EH ar y gwaith ar weithgarwch sy'n digwydd ar hyn o bryd i ddatblygu'r safle.
- Dywedodd EH y bydd Horizon yn cydweithio'n glos â Hitachi i asesu'r opsiynau ar gyfer strategaeth i ddatblygu'r safle er mwyn llunio rhaglen waith fanwl yn y dyfodol agos.
- Dywedodd EH fod Hitachi yn gobeithio datblygu un ai dau neu dri adweithydd yn Wylfa. Disgwylir y bydd yr uned gyntaf yn weithredol erbyn hanner cyntaf y 2020au. Ychwanegodd EH y bydd Horizon yn parhau i weithio â rhanddeiliaid a phreswylwyr lleol i'w diweddarau am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r prosiect.
- Eglurodd EH mai Hitachi fyddai'r darparwr technoleg yn Wylfa ac Oldbury ac roedd yn cynnig datblygu Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR). Yr ABWR yw'r unig adweithydd Cenhedlaeth 3+ uwch sy'n weithredol yn unman yn y byd. Cafodd y pedair uned ABWR sy'n weithredol wedi eu cwblhau o fewn y terfynau amser a chost, a chwblhawyd uned chwech yn Kashiwazaki-Kariwa yng Ngorllewin Japan mewn 37 mis. Dywedodd EH fod yr ABWR wedi'i drwyddedu yn Japan, Taiwan a'r UDA ac y bydd Hitachi yn cyflwyno'r ABWR ar gyfer cymeradwyaeth Asesiad Dyluniad Generig (GDA) yn y DU. Eglurodd EH y bydd y gweithgarwch i ddatblygu'r safle a chael caniatâd yn digwydd ochr yn ochr â'r GDA.
- Dywedodd EH fod gweithgareddau datblygu safle wedi bod yn digwydd yn lleol a bod arolygon ar y môr yn parhau. Mae'r gwaith yn parhau hefyd i ddymchwel tŷ gwag adfeiliedig a nifer o dai allan, carafanau gwag ac ysguboriau sydd bellach mewn cyflwr peryglus. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn canol Rhagfyr ac mae preswylwyr lleol wedi'u hysbysu o'r gwaith. ***Nodyn yn dilyn y cyfarfod: Cwblhawyd y gwaith dymchwel ganol Rhagfyr.***

- Dywedodd EH hefyd fod Horizon wedi parhau i wneud gwaith i wella eiddo sydd mewn cyflwr i fyw ynddynt i wneud yn siŵr eu bod yn ateb gofynion tenantiaid presennol ac yn y dyfodol.
- Eglurodd EH fod iechyd a diogelwch yn bwysig dros ben ac roedd arwyddion wedi'u gosod yn agos at Benrhyn Wylfa i rybuddio pobl am y clogwyni serth. Dywedodd EH na fu dim digwyddiadau peryglus ond roedd yn bwysig cael arwyddion i rybuddio pobl am y peryglon posibl.
- Dywedodd EH fod cytundeb cysylltiad Grid Cenedlaethol Horizon yn weithredol o hyd a'i bod yn bwysig bod pobl yn mynychu'r digwyddiadau ymgynghori sy'n cael eu cynnal ledled Môn a Gogledd Cymru.
- Mae gwaith i ymgysylltu â chymunedau lleol hefyd yn parhau, a dywedodd EH fod tîm Horizon wedi cefnogi digwyddiad Gyrfaedd Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer myfyrwyr blynyddoedd 9 i 12. Dywedodd EH ei fod yn ddigwyddiad positif dros ben a arweiniodd at rai cwestiynau da gan y bobl ifanc.
- Eglurodd EH hefyd fod Cymorthfeydd Agored misol Horizon yn parhau. Cynhelir y ddwy gymhorthfa nesaf rhwng 1pm a 7pm ddydd Llun 19 Tachwedd a dydd Llun 17 Rhagfyr yn Neuadd Bentref Cemaes. ***Nodyn yn dilyn y cyfarfod: Mae dyddiadau wedi'u trefnu tan fis Mawrth 2013 ac mae pobl leol wedi'u hysbysu yn rhifyn Rhagfyr 2012 o'r cylchlythyr Cymunedol.***
- Diolchodd DE i EH a dywedodd fod brwdfrydedd staff Horizon tuag at y prosiect yn amlwg a'u bod yn barod i wynebu'r her. Gwahoddodd DE unrhyw gwestiynau.

### **Holi ac Ateb**

- Gofynnodd Michael Dodds (MD) sut y gellid cwblhau'r prosiect mewn pedair blynedd, gan fod hynny'n ymddangos yn gyfnod byr.
  - Eglurodd CT fod modd cwblhau'r gwaith adeiladu mewn llai na phedair blynedd a bod Hitachi yn ymfalchïo ei fod yn gallu cyflawni hynny. Dywedodd CT mai dyma un o fanteision technolegau ABWR gan fod modd eu datblygu ar ffurf modiwlau mewn gwahanol lefydd yn y DU cyn eu cludo i'r safle.
- Dywedodd Gwynne Morris Jones (GMJ) o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) fod y Grid Cenedlaethol yn edrych ar opsiynau ar draws Môn yn unig ar gyfer cysylltiadau newydd. Gofynnodd GMJ i Horizon ystyried y mater gan fod modd gwneud cysylltiadau ar hyd gwely'r môr rhwng Wylfa a Glannau Dyfrdwy – yn enwedig ar gyfer prosiect Celtic Array.
  - Dywedodd CT fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal â'r Grid Cenedlaethol a Celtic Array, sy'n datblygu tyrbinau gwynt ar y môr. Nod y

cyfarfodydd hyn yw trafod opsiynau, ystyriaethau strwythurol, a sut y gellid gwneud y gwaith adeiladau ar gyfer cysylltiadau newydd. Roedd CT yn cydnabod bod hwn yn brosiect cymhleth.

- Gofynnodd Melanie Wymer (MW) o Ymddiriedolaeth Bodorgan a fyddai'r newid i ddyluniad yr adweithydd yn effeithio ar nifer yr unedau a gynhyrchid a beth fyddai'r amserlen ar gyfer y datblygiad yn awr.
  - Dywedodd CT fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod hyn ac y gellid disgwyl llawer o weithgarwch yn gynnar yn 2013 i bennu amserlenni ar gyfer y prosiect.
  - Dywedodd CT y byddai dau neu dri adweithydd yn cael eu hadeiladu ym mhob safle – sef yr hyn a gynigiwyd gan y perchnogion blaenorol – ond byddai'r lefelau cynhyrchu'n wahanol gan fod technoleg wahanol yn cael ei chynnig erbyn hyn.
  - Dywedodd CT fod llawer i'w drafod o hyd ac y byddai rhagor o wybodaeth ar gael yn 2013.
- Dywedodd Jac Jones (JJ), Menter Mechell, fod Cyngor Cymuned Mechell wedi dod i'r casgliad nad oedd ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol yn ddigon eang gan nad oedd yn dangos yr holl opsiynau sydd ar gael. Dywedodd y byddent yn gofyn am gyngor ar y mater drwy Un Llais Cymru ac roedd yn teimlo ei bod yn bwysig bod Horizon yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn anhapus â'r ymgynghoriad.
  - Diolchodd DE i JJ a gofynnodd i Gareth Williams o'r Grid Cenedlaethol (GW) ymateb i'r pwynt a godwyd.
  - Diolchodd GW i DE a'r PLG am y gwahoddiad. Eglurodd GW fod y Grid Cenedlaethol wedi ceisio canfod yr opsiynau gorau ar gyfer cysylltiad ar draws Môn a Gogledd Cymru a'i fod wedi edrych ar opsiynau ar y môr ac ar y tir. Ar ôl asesu llawer o opsiynau a'r canllawiau cynllunio, penderfynwyd mai'r opsiwn Wylfa i Bentir fyddai'r Opsiwn Cychwynnol a Ffefrir gan y Grid Cenedlaethol.
  - Pwysleisiodd GW ei fod yn bwysig bod pobl yn anfon eu sylwadau i'r Grid Cenedlaethol ac roedd y cwestiwn cyntaf ar y ffurflen adborth yn gofyn a oedd pobl yn cytuno â'r opsiwn a ffefrir.
  - Anogodd GW bobl i ymweld ag arddangosfeydd y Grid Cenedlaethol neu i ymweld â gwefan yr ymgynghoriad.
- Cyfeiriodd DE yn ôl at ddatganiad GMJ ar ddatblygiad fferm wynt ar y môr Celtic Array ym Môr Iwerddon ac anogodd aelodau'r PLG i fynychu ymgynghoriad Celtic Array ar Fferm Wynt Rhiannon.
  - Dywedodd GW nad oedd amserlenni prosiect Celtic Array wedi'u cadarnhau eto a phe bai'r cynlluniau'n cael eu newid yn sylweddol, byddai angen i'r Grid Cenedlaethol edrych eto ar ei gynigion.

- Dyweddodd GMJ ei fod wedi mynychu ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol yn Llangefni lle'r oedd wedi holi am y gwahaniaeth yn y gost rhwng yr opsiwn Wylfa i Bentir a chysylltiad uniongyrchol o Wylfa i Lannau Dyfrdwy ar wely'r môr. Dywedodd GMJ y byddai'r opsiwn o dan y môr yn costio tua £1 biliwn ac y byddai hyn yn golygu y byddai £1 yn cael ei hychwanegu at fil trydan blyneddol pob defnyddiwr am gyfnod o 40 blynedd, sy'n bris bychan i'w dalu am ddiogelu tirwedd yr ardal, yn enwedig afon Menai. Dywedodd y gallai'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu ym Môn ar hyn o bryd ddefnyddio'r rhwydwaith presennol ac y gallai'r ffermydd gwynt ar y môr ddefnyddio cysylltiad ar wely'r môr. Roedd yn bryderus am nad oedd y Grid Cenedlaethol yn ymgynghori'n ddigon eang ar yr opsiynau eraill sydd ar gael.

  - Atebodd GW drwy ddweud nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ar sut y byddai ynni o'r ffermydd gwynt yn dod i'r tir – ond bod y mater yn cael sylw.
  - Dywedodd ei bod yn bwysig nodi hefyd nad oedd y Grid Cenedlaethol wedi penderfynu a fyddai'r cysylltiad yn un uwchben bob cam o'r ffordd a bod opsiynau'n cael eu hystyried i'w roi o dan y ddaear. Dywedodd GW fod costau ynghlwm wrth hyn ond ei bod yn bwysig bod pobl yn mynd i'r drafferth i roi adborth i'r Grid Cenedlaethol.
  - Gofynnodd GMJ a oedd y ffigur o £1 yn gywir
  - Dywedodd Mark Cooper (MC), a oedd hefyd yn cynrychioli'r Grid Cenedlaethol, fod y costau'n agos ati, ond roedd nifer o brosiectau ynni ar waith yn y DU ar hyn o bryd a allai ychwanegu at filiau defnyddwyr. Roedd yn rhaid i'r Grid Cenedlaethol gadw'r rhain mewn cof hefyd.
  - Eglurodd DE fod Adroddiad Opsiynau Strategol y Grid Cenedlaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth am gostau, ar gael ar-lein. Hefyd, anogodd bawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Gofynnodd MW beth fyddai'n digwydd pe bai'r capasiti'n cynyddu eto yn y dyfodol ac a oedd yn debygol y byddai angen trydedd lein. Gofynnodd beth oedd uchafswm y capasiti.

  - Dywedodd GW nad oedd prosiect Greenwire a'r Moelrhoniaid yn rhan o'r prosiect hwn felly ni fyddai'n cael effaith ar gapasiti. Dywedodd fod y prosiect wedi'i gynllunio i ymdopi â 3.6 GW o niwclear newydd a 2 GW o ynni gwynt, ond nid oedd ffigurau ganddo ar gyfer uchafswm y capasiti. Cytunodd GW i roi'r wybodaeth hon i'r grŵp.
- Gofynnodd Lisa Morgan (LM) o Magnox a fyddai modd ymgysylltu'n fwy clos ag ysgolion a phobl ifanc ynghylch swyddi newydd.

  - Dywedodd DE fod hwn yn syniad ardderchog ac roedd y PLG eisoes wedi gwahodd ysgolion, y Clwb Ffermwyr Ifanc a chynrychiolwyr pobl ifanc o Gyngor Sir Ynys Môn i gymryd rhan. Dywedodd ei fod yn gweithio â Horizon i wneud cymaint â phosibl.



- Gofynnodd Kimberley Jones (KJ) a oedd gwaith yn cael ei wneud i ymgysylltu â phlant iau – 11 – 12 oed – yn ogystal â rhai a oedd yn dechrau meddwl am eu gyrfaedd.
  - Dywedodd Richard Foxhall (RF), Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Horizon Nuclear Power, fod Horizon, tan y cyhoeddiad rhanddeiliaid ym mis Mawrth, wedi bod yn gweithio ag ysgolion i hyrwyddo gyrfaedd yn y sector. Eglurodd RF fod lefel yr ymgysylltu'n llai erbyn hyn ond byddai'n cynyddu eto yn y dyfodol.
  - Dywedodd RF eu bod mewn cysylltiad â Gyrfa Cymru a bod cyfarfod wedi'i drefnu i edrych ar y camau nesaf i ymgysylltu. Dywedodd ei bod yn bwysig bod Horizon yn ymgysylltu â phlant o bob oed.
  - Pwysleisiodd RF y byddai'r orsaf bŵer newydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gyrfaol, ac nid rhai ym meysydd peirianeg a gwyddoniaeth yn unig.
  - Eglurodd LM mai ei nod oedd annog ymgysylltu pellach a'i bod yn falch bod hyn yn digwydd.
- Gofynnodd KJ a oedd cyfle i feithrin cysylltiadau pellach â Phrifysgol Bangor – yn ychwanegol at yr hyn oedd yn digwydd eisoes.
  - Dywedodd CT ei bod yn dal yn ddyddiau cynnar yn natblygiad y prosiect, ond roedd o'r farn y byddai'n flaenoriaeth i ddenu pobl fedrus o'r Prifysgolion.
  - Dywedodd CT hefyd fod Hitachi wedi cwrdd â Choleg Menai a bod y cwmni'n bwriadu edrych ar ba sgiliau allweddol fyddai eu hangen yn y dyfodol.
- Estynnodd Damian Hamilton (DH) o'r Adran Gwaith a Phensiynau ei longyfarchion i Horizon. Dywedodd nad oedd pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) yn boblogaidd bob amser a bod angen eu gwneud yn fwy atyniadol i blant. Dywedodd fod hyn yn dechrau newid ond bod llawer i'w wneud o hyd. Dywedodd fod hwn yn gyfle cyffrous i bobl ym Môn – yn enwedig pobl ifanc.
- Gofynnodd John Chamberlain (JC) a fyddai'n bosibl gwella'r system uchelseinydd gan ei bod yn anodd clywed yr hyn oedd yn cael ei ddweud.
- Dywedodd Will Edwards (WE) ei fod wedi mynd i leoliad arferol cyfarfod y PLG ac roedd am wybod pam ei fod wedi cael ei symud. Gofynnodd i'r trefnwyr wneud yn siŵr bod unrhyw newid i'r lleoliad yn cael ei nodi'n eglur yn y dyfodol. Hefyd, mynegodd ei syndod nad oedd y Grid Cenedlaethol ar yr agenda ac roedd yn siomedig â'i broses ymgynghori. Dywedodd yr hoffai weld y Grid Cenedlaethol fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.
  - Nododd DE bryderon JC.

## **6 Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

- Diolchodd DE i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 6.15.